GWASANAETH TÂN AC ACHUB
Canolbarth a Gorllewin Cymru
Mid and West Wales
FIRE AND RESCUE SERVICE

SWYDD-DDISGRIFIAD

TEITL Y SWYDD:	Swyddog Addysg Gymunedol
SAFLE/RÔL:	Gradd 5
CYFEIRNOD Y SWYDD:	ADM.067
LLEOLIAD:	Aberystwyth, Diogelwch Cymunedol Ceredigion, yr Ardal Reoli Sirol
YN ATEBOL I:	Y Rheolwr Gwylfa, Diogelwch Cymunedol Yr Ymgynghorydd Addysg
PRIF DDIBEN Y SWYDD:	Darparu addysg a chyngor Diogelwch Tân i ysgolion, y Gymuned a chyrff eraill, fel y bo'n briodol

Rhestr o Gyfrifoldebau		Yn atebol i
1.	Darparu negeseuon addysg diogelwch o'r Cyfnod Sylfaen hyd at Addysg Uwch, gan gynnwys y cwricwlwm amgen.	Yr Ymgynghorydd Addysg
2.	Bod yn gyfrifol am drefnu apwyntiadau y cytunwyd arnynt gydag ysgolion, gan flaenoriaethu ymweliadau a chadw cofnodion manwl o'r apwyntiadau. Bod yn gyfrifol am ganslo unrhyw apwyntiadau, pan fo angen.	Yr Ymgynghorydd Addysg
3.	Rhoi gwybod i athrawon ac aelodau o'r cyhoedd am y gwasanaethau sydd ar gael, e.e. y Rhaglen Cyneuwyr Tanau, Gwiriadau Diogelwch Tân yn y Cartref ac Ymyraethau Ieuenctid	Y Rheolwr Gwylfa Diogelwch Cymunedol
4.	Cydgysylltu ag Ymgynghorydd Safonau Addysgol y Gwasanaeth i sicrhau ansawdd a chysondeb y ddarpariaeth. Rhoi diweddariad i gyfarfodydd Addysg y Gwasanaeth Tân ar gysylltiadau gwaith cymunedol mewn perthynas â chynlluniau Plant a Phobl Ifanc.	Yr Ymgynghorydd Addysg Y Rheolwr Gwylfa Diogelwch Cymunedol
5.	Cysylltu â Swyddogion Arweiniol Diogelwch Cymunedol, Rheolwyr Diogelwch Cymunedol, a chynrychiolwyr o'r Awdurdod Addysg, i sicrhau bod negeseuon diogelwch yn cael eu trosglwyddo i bobl ifanc sydd wedi'u gwahardd o'r ysgol, e.e. Unedau Cyfeirio Disgyblion	Y Rheolwr Gwylfa Diogelwch Cymunedol Yr Ymgynghorydd Addysg
6.	Darparu cefnogaeth ar gyfer mentrau eraill y Gwasanaeth Tân, sy'n cynnig rôl eilaidd i raglenni ysgolion.	Y Rheolwr Gwylfa Diogelwch Cymunedol
7.	Cynorthwyo i ddarparu Diogelwch Cymunedol ymhob Ardal Reoli, yn unol â chyfarwyddyd y Pennaeth Diogelwch Cymunedol. Gall hyn gynnwys gweithio ar benwythnos, Gwyliau Banc a gyda'r nos, a rhoir amser yn ôl neu daliad cytunedig ar gyfer hynny.	Y Rheolwr Gwylfa Diogelwch Cymunedol
8.	Cynorthwyo a darparu cymorth addysgol i orsafoedd mewn perthynas â diogelwch cymunedol ar ffurf Ffeiriau, Diwrnodau Agored, ac ymweliadau â Gorsafoedd.	Y Rheolwr Gwylfa Diogelwch Cymunedol
9.	Cefnogi digwyddiadau partneriaeth trwy fynychu cyfarfodydd priodol, a sicrhau bod negeseuon diogelwch, cyfarpar, adnoddau a lefelau staffio yn cael eu cydgysylltu â'u trosglwyddo, yn ôl y gofyn.	Y Rheolwr Gwylfa Diogelwch Cymunedol

(Diweddarwyd ddiwethaf: Hydref 2017 – Bethan Gill)

Rhestr o Gyfrifoldebau		Yn atebol i
10.	Hysbysu ac addysgu'r gymuned i wella ymwybyddiaeth o faterion diogelwch, a hynny trwy gyflwyno sgyrsiau ynghylch Diogelwch Cymunedol, ymgymryd ag Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref, a mynychu digwyddiadau Diogelwch Cymunedol.	Y Rheolwr Gwylfa Diogelwch Cymunedol
11.	Sicrhau bod y darpariaethau Iechyd a Diogelwch perthnasol a'r Gorchmynion Gwasanaeth sy'n rheoli'r defnydd o gerbydau ac offer y Gwasanaeth, yn cael eu bodloni.	Y Rheolwr Gwylfa Diogelwch Cymunedol
12.	Cynnal lefelau stoc digonol o lenyddiaeth Diogelwch Tân i'w dosbarthu yn yr Ardal Reoli briodol.	Y Rheolwr Gwylfa Diogelwch Cymunedol
13.	Cofnodi dyletswyddau a gweithgareddau Diogelwch Cymunedol yr ymgymerwyd â nhw yn ôl cyfarwyddyd, a hynny ar systemau â llaw a systemau cyfrifiadurol. Cynnal trywydd archwilio ar gyfer Ffurflenni Diogelwch Cymunedol, taflenni amser personol, a Gwiriadau Diogelwch Tân yn y Cartref.	Y Rheolwr Gwylfa Diogelwch Cymunedol

- Deiliad y swydd sy'n gyfrifol am weinyddu cynnwys y swydd-ddisgrifiad hwn.
- Dylai deiliad y swydd wirio'r swydd-ddisgrifiad hwn yn barhaus, a dylid trafod unrhyw gyfrifoldeb nad yw wedi'i gynnwys, ynghyd ag unrhyw amrywiadau arfaethedig, â'r Rheolwr Llinell.
- Os ceir anawsterau na all y Rheolwr Llinell eu datrys, gellir cyfeirio'r mater at y Pennaeth Adran, a fydd yn ymgynghori â phartïon yn ôl yr angen.

Llofnodwyd

Dyddiad